CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener yr 11eg o Orffennaf 2025 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry. Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Aled Rees, Meirion Roberts, Sion Evans a Ken Griffiths.

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 16ain o Fai 2025 ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng James Brunton.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** roedd ateb gan Cyngor Gwynedd ynglyn a'r gwteri wedi blocio ar y ffordd o Cwrt i gyfeiriad Cwmffernol, ac o Tower road i fynny am Gyllellog. Hefyd y gwyn am y golau stryd yn Tower Road. Roedd Cyng William Rees wedi cael gair gyda Sion Wilkes eto ynglyn a dwr o flaen Ty Alys, a bod cynlluniau ar y gweill i ail-wynebu y ffordd.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – roedd nifer o Gynghorwyr a gwirfodolwyr – cyfanswm o tua 12 – wedi dod ynghyd i wneud gwaith tacluso, torri gwair a choed ar ddydd Sadwrn 7fed o Fehefin. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb am eu hymdrechion. Nodwyd hefyd y gwaith yn y fynwent newydd, a bod pob dim yn daclus yno.
   c) **Menter y Glan** – CCTV – adroddwyd am amcangyfrif i law gan Cyng Meirion Roberts, a byddai rhaid trafod yng nghyswllt y grant 'Gwynedd Ni'
   d) **Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais** - adroddwyd am gyfarfod yn Aberystwyth gan 'Amddiffyn Gwasanethau Bronglais' 'Protect Bronglais Services' a hefyd cyfarfod yn Machynlleth gan Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar ddydd Llun y 7fed o Orffennaf. Byddai'r Clerc yn dosbarthu y gohebiaeth diweddaraf.

5. **Materion Cynllunio**

   Roedd dau gais i law, sef ;

**NP5/75/272A –** codi dau annedd marchnad agored, gydag un yn hunan – adeiladu ar gyfer anghenion lleol a ffurfio mynediad i gerbydau, parcio a mannau troi a gwaith cysylltiedig (ail-gyflwyniad) **- Tir ger Ty Gwyn, Pennal**

*Roedd hwn wedi ei ddosbarthu i bawb ar y 27ain o Fehefin. Adroddwyd ymateb ysgrifenedig Cyng Aled Rees yn nodi nad oedd yna angen lleol. Penderfynwyd fodd bynnag i gadw i'r un farn a roddwyd yn flaenorol ar hwn yn Chwefror 2025, sef i gefnogi. Roedd hyn ar y dealltwriaeth y byddai blaeoriaeth i bobl leol. Fodd bynnag, addawodd y Clerc roi cyfle arall i'r Cynghorwyr i ymateb.*

**NP5/75/T88A** – Gosod Ffenestri to ar adeilad allanol o fewn cwrtil preswyl – **Ffynnon Fach, Pennal, SY20 9JS**

*Pendefynwyd fod y Cynghorwyr yn gefnogol i'r cais.*

6.**Materion Cyllid**

a) **Cadarnhwyd fod cyfrifon 2024-25** bellach wedi eu cyflwyno I'r archwilydd allanol. Atgoffwyd pawb fod hwn yn archwiliad llawn eleni. Cadarnhwyd hefyd fod yr ad-daliad y VAT am 2023-4 a 2024-25 wedi ei dderbyn, sef cyfanswm o £1,189.32.

b) Nodwyd balansau y cyfrifon, (11.07.25), sef Cyfri Cyfredol £18,293.27 Cyfri Cadw £2688.98.

c) Cytunwyd ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng William Rees i dalu yr anfonebau i law;

- Cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc £537.68 a HMRC £134.20.

d) Ceisiadau am arian – ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng James Brunton, cytunwyd i'r unig gais i law ;

- Papur Bro y Blewyn Glas – cytunwyd cyfrannu £100.

**7. . Gohebiaeth**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law, a byddai'r Clerc yn trefnu yr hyfforddiant yn ol y galw.

b) Cynllun 'Gwynedd Ni' – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - cyfeiriwyd at y gohebiaeth oedd i law ynglyn a'r gronfa yma o Gyngor Gwynedd, a bod y cyfan wedi ei ddosbarthu allan i'r Cynghorwyr ymlaenllaw. Adroddwyd am y syniadau/amcangyfrifon i law oedd i law gan Cyng Meirion Roberts. Diolchwyd yn fawr iawn iddo am hyn. Hefyd nodwyd e-bost i law gan Mrs Nia Wyn Thomas-Evans (Prifathrawes Ysgol Pennal) ynglyn a'r angen am feinciau/byrddau picnic ar gyfer iard yr ysgol yn Pennal.

Ar ol trafodaeth hir, penderfynwyd mynd ymlaen i gael y camerau CCTV , a defnyddio amcangyfrif gan Cyng Meirion Roberts o AL Technical Services Ltd, ac hefyd cael y byrddau picnic/meinciau fel yr awgrymwyd gan Mrs Nia Wyn Thomas – Evans. Byddai'r Clerc yn gweithredu, a dosbarthu ffurflen gais drafft i'r Cynghorwyr cyn ei danfon.

13.**Unrhyw fater arall.**

Nid oedd unrhyw fater arall.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 5ed o Fedi yn y Ganolfan am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 8.45pm.